**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon**
**Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-(P)VG/1884/17

Rhun ap Iorwerth AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Mehefin 2017

Annwyl Rhun,

Yn ystod y cyfarfod llawn ar 17 Mai, gofynnoch gwestiwn am amseroedd aros CAMHS a chwestiynu'r ffigurau a ddyfynnwyd gan y Prif Weinidog yn ei gwestiynau llafar y diwrnod blaenorol. Roeddwn am egluro'r sefyllfa gan i'r data diweddaraf ar amseroedd aros gael eu cyhoeddi drannoeth ein trafodaeth.

Fel rydym i gyd wedi cydnabod, mae'r nifer sy'n cael eu cyfeirio at CAMHS wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at amseroedd aros annerbyniol i rai pobl ifanc. Er mwyn unioni'r sefyllfa hon, rydym wedi buddsoddi arian ychwanegol sylweddol yn CAMHS (bron £8m y flwyddyn) ers 2015. Mae rhan o'r buddsoddiad hwn wedi'i ddefnyddio i greu llwybr niwroddatblygiadol i sicrhau bod modd i blant a phobl ifanc gael eu hatgyfeirio at wasanaeth sy'n briodol i'w hanghenion.

Yn ystod y cyfarfod llawn, gwnaethoch gyfeirio at ganran y bobl ifanc sy'n aros dros 26 wythnos, a'r ffaith nad oedd wedi codi dros 10% cyn mis Gorffennaf 2013, ei fod ar ei uchaf yn 36% ym mis Medi 2015, ac wedi gostwng i 20.5% ym mis Chwefror 2017. Roeddwn am egluro wrth inni ddyfynnu perfformiad CAMHS yn awr nad ydym yn mesur yn erbyn targed o 26 wythnos, ond yn erbyn y targed llawer mwy llym o 28 diwrnod a gyflwynwyd gennym yn 2016.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, roedd y Prif Weinidog yn cyfeirio at berfformiad Byrddau Iechyd Lleol yn erbyn targed newydd CAMHS o 28 diwrnod. Rydym wedi gallu cyflwyno'r targed newydd a mwy heriol hwn o ganlyniad i'n gwaith i wella CAMHS dros y ddwy flynedd ddiwethaf a chyflwyno'r llwybrau niwroddatblygiadol newydd. Mae'n bleser gen i ddweud bod y data diweddaraf ar gyfer mis Mawrth 2017 yn dangos y cafodd 87.5% o'r bobl ifanc ledled Cymru eu gweld o fewn y targed o 28 diwrnod, ac ni wnaeth neb aros dros 26 wythnos. Rydym wedi nodi'n glir ein bod yn disgwyl i'r Byrddau Iechyd Lleol gynnal y gwelliant hwn.

Gobeithiaf fod hyn yn egluro'r sefyllfa i chi

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport